

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

# Mae dysgu yn newid

## Arbenigwyr: Gwybodaeth Gyffredinol

ISBN 978 0 7504 5703 3
Medi 2010

Advisor welsh part 2 outlines.indd 1 8/11/10 11:57:37

## Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru

O ganlyniad i raglen ddiwygio cymwysterau galwedigaethol y DU, mae cymwysterau galwedigaethol a chysylltiedig â gwaith yng Nghymru wedi newid i fod yn fwy addas i anghenion cyflogwyr a dysgwyr.

Mae diwydiant, masnach a'r Cynghorau Sgiliau Sector, sy'n cynrychioli cyflogwyr, wedi bod yn cyfrannu'n sylweddol iawn i'r gwaith o ddatblygu cymwysterau newydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben y bwriadwyd hwy ar ei gyfer. Mae rhai cymwysterau yn seiliedig ar safonau galwedigaethol cenedlaethol.

Rhan hanfodol o raglen ddiwygio'r cymwysterau galwedigaethol yw'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh), sy'n rhan o'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau ehangach ar gyfer Cymru.

### Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru

**Pob dysgwr**

**Pob rhaglen ddysgu**
yn cynnwys cyrsiau a addysgir, dysgu o bell, hyfforddiant cysylltiedig â gwaith, dysgu a gyfoethogir gan dechnoleg a gweithgareddau addysg/hyfforddiant eraill

**Pob darparydd**
yn cynnwys ysgol, coleg, hyfforddwyr yn y gwaith, prifysgol, cymuned, diwydiant, gwirfoddol a gweithgareddau eraill

**Mathau o gymwysterau a chyfleoedd i ddysgu**

| | | |
|---|---|---|
| **Addysg Uwch**<br>Gradd<br>Gradd Meistr<br>Astudiaethau ôl-radd<br>Doethuriaethau | **Dysgu Gydol Oes**<br>Dysgu Oedolion a'r Gymuned<br>Hyfforddiant Cwmni<br>Sector Gwirfoddol<br>Dysgu ehangach 14+ | **Addysg a hyfforddiant cyffredinol a galwedigaethol**<br>TGAU<br>Safon Uwch<br>S/NVQs<br>Cymhwyster Bagloriaeth Cymru |

**Mae dysgu a sefydliadau wedi eu trefnu mewn fframweithiau**

| | | |
|---|---|---|
| Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch FfCAU | Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd DGOSA | Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol FfCC<br>Fframwaith Cymwysterau a Chredydau FfCCh<br>Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF) |

**Sicrheir ansawdd cyfleoedd dysgu a safonau gan**

| | | |
|---|---|---|
| ASAAU | FfCChC | APADGOS, Ofqual. Partneriaeth CCEA a SCQF |

## Pam mae angen newid?

Mae deall yr holl fathau gwahanol o gymwysterau galwedigaethol yn gallu bod yn anodd:

- pa mor anodd ydynt;
- faint o amser sydd ei angen i'w cwblhau;
- yr hyn maent yn rhoi sylw iddo; a'r
- modd y maent yn wahanol i'w gilydd.

Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) yn fodd i gyflogwyr gymharu pob math o gymhwyster. Mae credyd yn fodd i gydnabod pob math o ddysgu a gyflawnir – boed y dysgu hwnnw yn y coleg, y gweithle neu'r gymuned (er enghraifft, dosbarthiadau nos).

Mae rhagor o wybodaeth i chi ar y wefan, sef **www.cqfw.net**

## Beth yw'r manteision?

Mae gan bob cymhwyster galwedigaethol a'u hunedau lefel a gwerth credyd sydd:

- yn fodd i ddysgwyr adeiladu cymwysterau 'fesul camau bach' – fesul uned os ydynt yn dymuno;
- cydnabod y gallai pob dysgu gyfrannu at gymhwyster cydnabyddedig;
- cymell dysgwyr o bob oed ac yn eu helpu i gael y sgiliau a'r cymwysterau sy'n cyflawni anghenion cyflogwyr; a
- cynnig modd i gydnabod dysgu a hyfforddiant seiliedig ar waith y gellir eu hasesu a rhoi gwerth credyd iddynt.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymeradwyo'r fframwaith cymwysterau. Golyga hyn bod y rhaglen hyfforddiant neu addysg wedi bod trwy broses sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd safon benodedig.

Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru wedi cael ei gysoni â Fframwaith Cymwysterau Ewrop (FfCE). Golyga hyn bod modd cymharu'r cymhwyster a geir yng Nghymru gyda lefel yn y FfCE. Mae hyn yn gymorth i bobl a sefydliadau ddeall cyraeddiadau mewn gwledydd eraill a gweithio ledled yr UE.

## Sut mae'n gweithio?

Disgrifir cymhwyster yn ôl ei:

- **lefel –** pa mor anodd yw;
- **maint** – gwerth credyd y cymhwyster; a
- **teitl** – enw'r cymhwyster.

Mae'r teitl yn rhoi disgrifiad byr o gynnwys y cymhwyster. Mae'r crynodeb yn dangos yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd y dysgwr yn eu hennill a'r hyn y maent yn ei olygu i gyflogwr.

Uned yw'r rhan leiaf o gymhwyster y gellir ei ennill ar ei ben ei hun.

Mae pob uned mewn cymhwyster yn mesur gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwr mewn pwnc arbennig. Bydd yr unedau yn adeiladu fesul cam tuag at gymhwyster cyflawn.

## Beth yw credydau?

Rhoddir credyd am bob 10 awr o amser dysgu. Bydd y dysgwr yn gweld yng ngwybodaeth y cwrs faint o oriau o ddysgu sydd eu hangen ar gyfer y cwrs y maent wedi ei ddewis, a faint o gredydau y byddant yn eu cael pan fyddant wedi cwblhau pob uned yn llwyddiannus.

| | |
|---|---|
| **Cymhwyster (teitl)** | Diploma Lefel 2 BTEC Edexcel mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol (QCF) |
| **Lefel y Cymhwyster (lefel)** | Lefel 2 |
| **Maint y Cymhwyster** | Diploma |
| **Math o Gymhwyster** | QCF |
| **Crynodeb o'r Cymhwyster (pwrpas)** | Mae'r cymhwyster hwn yn darparu cryn dipyn o'r wybodaeth waelodol y mae'n rhaid ei chael ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan ddiwydiant. Mae arwyddbyst at y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn perthyn i bob uned. Mae'r unedau'n canolbwyntio ar swyddogaeth y technegydd gwyddoniaeth neu'r ymarferwr cynorthwyol, y berthynas sydd ganddynt â'r gymuned wyddonol a'u cyfrifoldebau tuag at y gymuned a'r amgylchedd. |
| **Dilyniant** | Learners can progress from Level 2 to Level 3 qualifications in Applied Science, GCE AS and A Level Science |
| **Potential Job Occupations** | Mae 100+ o alwedigaethau swyddi posibl wedi eu rhestru yn y manylion llawn |
| **Crynodeb o'r Strwythur Cymwysterau** | Mae'n cynnwys 3 uned orfodol yn ogystal ag unedau dewisol |
| **Y Credydau a ddarperir** | **60 credyd am gymhwyster sydd wedi'i gwblhau** |
| **Oriau Dysgu Dan Arweiniad** | **360** |
| **Y Safon Drwyddo Draw** | **Pasio/Teilyngdod/Rhagoriaeth/Rhagoriaeth*** |

Dyma ddetholiadau o gymhwyster presennol QCF.

Er enghraifft, os yw uned yn werth tri chredyd, mae hynny'n gyfwerth â 30 awr o amser dysgu. Efallai bydd eisiau llai neu fwy o amser i'w chwblhau. Ni fydd dysgwr yn cael mwy o unedau am fod wrthi am fwy o amser yn cwblhau'r unedau, na llai o gredydau am eu gwneud yn gyflymach.

Mae amser dysgu yn cynnwys amser yn y dosbarth, yn gwneud ymchwil, yn gwneud gwaith cartref neu ar brofiad gwaith.




## Beth yw ystyr y lefelau?

Mae lefel y cymhwyster yn dangos pa mor gymhleth a thrylwyr yw'r cwrs, y rhaglen hyfforddiant neu addysg.

| FfCCh | Cymhariaeth |
|---|---|
| Lefel Mynediad | Lefel Mynediad 1, 2 a 3 |
| Lefel 1 | NVQ 1 neu TGAU graddau D i G |
| Lefel 2 | NVQ 2 neu TGAU graddau A* i C |
| Lefel 3 | NVQ 3 neu Safon Uwch |
| Lefel 4 | Tystysgrif addysg uwch |
| Lefel 5 | Gradd sylfaen |
| Lefel 6 | Gradd anrhydedd |
| Lefel 7 | Gradd meistr |
| Lefel 8 | Doethuriaeth – PhD |

Mae'r diagram gwyntyll yn egluro'r llwybrau dysgu a dilyniant.




## Meintiau Cymwysterau

Mae tri maint i'r cymwysterau galwedigaethol – 'dyfarniad', 'tystysgrif' a 'diploma' – sy'n cynrychioli maint y cymhwyster, nid pa mor anodd yw. Er enghraifft, gallai'r dysgwr gael dyfarniad ar lefel mynediad neu ar lefel 8.

| Dyfarniad | Tystysgrif | Diploma |
|---|---|---|
| Lefel Mynediad i Lefel 8 | | |
| 1 i 12 o gredydau | 13 i 36 o gredydau | 37 neu ragor o gredydau |
| 10 i 120 awr o amser dysgu | 130 i 360 awr o amser dysgu | 370 awr neu ragor o amser dysgu |

*Mae'r tabl hwn yn dangos dadansoddiad pob maint o gymhwyster.*



Mae gan lawer o gwmnïau raglen o ddatblygiad proffesiynol parhaol ar gyfer eu gweithwyr. Gall cyflogwyr lunio eu hunedau hyfforddiant o'r fframwaith. Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector yn gweithio gyda sefydliadau dyfarnu er mwyn i'r cymwysterau a'r unedau fod yn gyson â'r safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol.

## Taith Jenny...



Doedd ar Jenny ddim eisiau aros yn yr ysgol ac ymadawodd gyda chanlyniadau TGAU gwael.

Roedd ganddi ddiddordeb mewn gweithio i gwmni mawr lleol o gyflenwyr adeiladwyr – roedd hi wedi cwblhau lleoliad profiad gwaith llwyddiannus yno, a bu'n fodd iddi gael swydd ran amser.

Trafododd ei syniadau gydag Ymgynghorydd Gyrfaoedd yn ei swyddfa Gyrfa Cymru leol. O ganlyniad, bu modd iddi drafod mynd am 'Brentisiaeth Gweinyddu Busnes' gyda darparydd hyfforddiant a chymorth gan y coleg lleol.

Cafodd wybod am gymwysterau FfCCh, a fyddai'n rhoi credyd iddi am bob un o'r unedau gofynnol wrth iddi eu cyflawni. Byddai'r unedau yn adeiladu fesul cam tuag at gymhwyster cyflawn.

Gyda chymorth ei hasesydd yn y gwaith a gweithwyr y coleg trosglwyddodd Jenny rai o'r unedau a gwnaeth waith ychwanegol er mwyn ennill cymhwyster mewn gofal cwsmer.

Yn ystod ei phrentisiaeth cwblhaodd Jenny yn llwyddiannus:

- NVQ Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes,
- Tystysgrif Dechnegol
- Sgiliau Allweddol - Lefel 2 - Cyfathrebu, TG, Datrys Problemau a Gweithio gydag Eraill
- Sgiliau Allweddol - Lefel 1 – Cymhwyso Rhif ... a
- Cymhwyster Gwasanaethau Cwsmer

Pan oedd Jenny wedi cwblhau ei rhaglen brentisiaeth, cafodd swydd amser llawn gyda'r cyflenwyr adeiladwyr.

Oherwydd ei gallu a'i hymrwymiad, anogwyd hi gan ei chyflogwr i fwrw ymlaen â'i datblygiad proffesiynol.

Roedd Jenny yn hoffi'r hyblygrwydd o gael cydnabyddiaeth ffurfiol i'r wybodaeth a'r sgiliau yr oedd yn eu dysgu yn y gweithle.

Roedd hyn yn hwb i Jenny fynd ymlaen i ennill rhagor o gredydau am 'Unedau Technoleg Gwybodaeth'. Roedd rhai o'r rhain trwy gynllun hyfforddi mewnol y cwmni ei hun.

## Taith Rachel…



Roedd Rachel â'i bryd ar fynd i'r Brifysgol, un ai i fynd yn feddyg neu astudio gwyddoniaeth.

Cafodd prif raglen academaidd Rachel ei seilio ar ennill cymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol.

Fodd bynnag, gyda'r unedau oedd yn rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, roedd cyfle i Rachel ennill credydau a fyddai'n ychwanegu gwerth at ei chymwysterau academaidd.

Anogwyd Rachel gan ei thiwtor i elwa ar gyfleoedd i gydnabod yr amrywiaeth o weithgareddau yr oedd hi wedi cymryd rhan ynddynt – ynghyd â'r credyd a fyddai'n cael ei ddyfarnu ar gyfer unedau yn ei Chymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Gall partneriaethau dysgu, Bagloriaeth Cymru a FfCChC wir gyfoethogi ac estyn profiadau dysgu trwy gydnabod dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol.

Enillodd Rachel gredydau am ei dysgu ychwanegol, yn cynnwys:

- Uned Mathemateg ar gyfer Cwrs Myfyrwyr Gwyddoniaeth
- Trwydded Yrru Cyfrifiadur Ewropeaidd ar y cyd a'r coleg AB lleol
- Prosiect estynedig ar hanes Cerddoriaeth Cymru
- Pythefnos o brofiad gwaith yn ei hysbyty lleol
- Dosbarth Sbaeneg Llafar (a chysylltiad gyda myfyriwr o Sbaen oedd am ddilyn gyrfa debyg)

Cyflawnodd Rachel ei Diploma Uwch Lefel 3 Bagloriaeth Cymru ac yn ei Chofnod Cyrhaeddiad hefyd roedd ei hunedau FfCChC a oedd yn cynnwys:

- 5 Credyd am ei phrofiad gwaith cysylltiedig â meddygaeth
- 5 Credyd (CDB) am eu gwaith gwirfoddol a chymunedol … a
- 3 Chredyd am ei hastudiaethau iaith.

Fe wnaeth y safon a'r amrywiaeth a oedd yng Nghofnod Cyrhaeddiad Rachel – ynghyd â'r ffydd a oedd ganddi yn ei gallu i lwyddo – gyfrannu at sicrhau y byddai'n cael mynd i Brifysgol i astudio Meddygaeth.

## Taith gweithiwr…



Mae Sharon yn oruchwylydd ifanc sydd wedi ei dyrchafu i fynd yn is-reolwr.

Fe wnaeth ei chyflogwr weithio â'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (SARh) er mwyn dweud yn union pa unedau QCF a fyddai'n bodloni ei hanghenion hyfforddi.

Gweithiodd Sharon gyda'i rheolwr llinell a gydag Asesydd o'r ILM i gytuno'r modd y byddai'r rhaglen o unedau'r ILM yn cael ei chyflawni er mwyn diwallu anghenion y cyflogwr ac anghenion Sharon ei hun am hyfforddiant.

Awgrymodd Asesydd yr ILM bod Sharon yn gweithio ar gyfuniad o unedau rheolaeth:

- byddai rhai yn cael eu hasesu yn y gweithle
- byddai rhai yn gofyn hyfforddi ac asesu ffurfiol

Roedd yn amlwg bod gan Sharon eisoes y sgiliau a'r wybodaeth oedd yn ofynnol ar gyfer rhai o'r unedau, ac felly byddai ei dysgu blaenorol yn cael ei asesu.

Fe roddodd yr asesydd gyfarwyddyd i Sharon a'i rheolwr llinell ynghylch proses Cydnabod y Dysgu a Wnaed Eisoes" – sy'n cynnwys y dystiolaeth y mae'n rhaid ei chael er mwyn i'r unedau gael eu cydnabod:

- cyflwyniad y gwnaeth Sharon ei roi ar gyfer sesiwn wybodaeth i'r tîm
- tystiolaeth gan ei Rheolwr Llinell
- tystiolaeth o arfarniad Sharon
- tystiolaeth ar bapur o hyfforddiant mewnol a'r modd y mae Sharon wedi cymhwyso hynny i'w gwaith

Mynychodd Sharon sesiynau hyfforddi'r ILM a oedd yn ofynnol. Gallai weld y modd yr oedd yr unedau yn gyson â'i swyddogaeth newydd a'r modd y byddent yn gymorth iddi ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol. Roedd yn wirioneddol frwdfrydig ynghylch ei hyfforddiant a siaradodd amdano gyda rheolwyr eraill, a roddodd fantais eu profiad iddi – a oedd hefyd yn beth gwerthfawr.

Roedd yr unedau oedd yn weddill yn uniongyrchol berthnasol i'w gwaith bob dydd a chytunodd Asesydd yr ILM ar y modd y gellid cwblhau'r asesiad ar gyfer y rhain yn y gweithle.

Pan oedd yr unedau yn hyfforddiant ei chyflogwr wedi eu cwblhau, gweithiodd Asesydd yr ILM gyda Sharon er mwyn cytuno sut y gellid bwrw ymlaen gyda'r credydau oedd wedi eu dyfarnu iddi er mwyn cwblhau'r cymhwyster mewn rheolaeth.

Llwyddodd Sharon i gwblhau'r hyfforddiant yn unol â gofynion ei chyflogwr, ac er ei bod yn cydnabod ei fod yn anodd – mae hi'n teimlo ei bod wedi cyflawni rhywbeth sydd wedi rhoi boddhad mawr iddi a hyder yn ei swyddogaeth newydd – yn ogystal â chodiad cyflog.

## Taith cyflogwr...



Clywodd darparydd hyfforddiant, oedd yn gweithio gyda phrentisiaid mewn cwmni lleol canolig ei faint, gan reolwr hyfforddiant cwmni oedd am fwrw golwg ar ofynion hyfforddiant ychwanegol.

Cytunwyd y byddent yn cyfarfod a gwahodd cynrychiolwyr o'r:

- Cyngor Sgiliau Sector (CSS)
- Coleg lleol a
- Sefydliad Dyfarnu (SD).

Cyn y cyfarfod, rhoddwyd gwybodaeth i'r cyflogwr am y cyfleoedd i roi cydnabyddiaeth ffurfiol i sgiliau a gwybodaeth y gweithlu.

Yn ystod y cyfarfod buont yn trafod:

- Y cyfleoedd sydd ar gael i i'r cyflogwr gael cynnwys eu hyfforddiant mewnol yn FfCChC a'i gydnabod yn ffurfiol ar gyfer y Dyfarniad Credyd. Cytunwyd y byddai'r CSS a'r SD yn trafod hyn ymhellach gyda'r cyflogwr (oherwydd y gallai fod iddo gymhwysiad ehangach gyda BBaCh eraill tebyg)

- A fyddai modd ychwanegu elfennau newydd i'w rhaglen Brentis er mwyn adlewyrchu'r modd y mae'r cwmni yn defnyddio technoleg a gweithdrefnau newydd – gellid cyflawni'r angen hwn am hyfforddiant trwy'r darparydd hyfforddiant yn ychwanegu unedau FfCCh eraill, y gellid eu cynnwys yn y fframwaith hyfforddiant

- Sgiliau Sylfaenol a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) sy'n cael eu darparu trwy gyfrwng yr Adduned Cyflogwyr, trwy ddefnyddio unedau priodol CQFW sy'n berthnasol i'r gweithle/gweithlu – byddai'r coleg yn gweithio gyda'r cyflogwr er mwyn ceisio arian i'w gynnig i'r gweithwyr

- Gweithwyr i gael cydnabod unrhyw sgiliau/profiad priodol yn ddysgu blaenorol (CDB) oddi mewn i FfCChC – cafwyd cynnig gan y darparydd hyfforddiant i wneud asesu a hyfforddi goruchwyliol yn y gweithle er mwyn cydnabod dysgu blaenorol

Cyflwynwyd costau'r rhaglen i'r cyflogwr a chytuno ar gynllun i wneud rhywfaint o hyfforddiant a CDB (Cydnabod Dysgu Blaenorol).

## Nodweddion arbennig cymwysterau'r FfCCh

- Mae gan bob un o gymwysterau'r FfCCh reolau cyfuno, sy'n nodi'r set o unedau y mae'n rhaid eu cyflawni i gael cymhwyster. Gallai hyn olygu, er enghraifft, cyfuniad o unedau gorfodol (rhai y mae'n rhaid eu cyflawni) ac unedau dewisol.
- Nid yw pob un o'r unedau mewn cymhwyster QCF yn gorfod bod ar yr un lefel – fe allai rhai unedau fod ar lefel uwch, ac eraill ar lefel is o bosibl. Fodd bynnag, mae 50% neu ragor o werth credyd y cymhwyster yn gorfod bod ar yr un lefel â'r cymhwyster.
- Wrth i ddysgwr gwblhau pob uned yn llwyddiannus, dyfernir credydau iddo/iddi. Efallai bydd modd iddynt drosglwyddo credydau rhwng cymwysterau'r FfCCh. Penderfynir wrth lunio'r cymhwyster a oes modd trosglwyddo credydau a gyflawnir ar gyfer uned a'u cyfrif ar gyfer cymhwyster arall yn y FfCCh. Mae rheolau cyfuno cymhwyster yn egluro'r unedau y gellir eu trosglwyddo o un o gymwysterau eraill y FfCCh.

### Enghreifftiau

- Gellid trosglwyddo credydau a gyflawnir ar gyfer uned iechyd a diogelwch mewn cymhwyster arlwyo a'u cyfrif ar gyfer cymhwyster ar wahân mewn lletygarwch.
- Gellid trosglwyddo credydau a gyflawnir ar gyfer uned meddalwedd taenlen mewn dyfarniad lefel 3 mewn dilyniant a'u cyfrif ar gyfer diploma lefel 3 ar gyfer Defnyddwyr TG (CTG) neu ddiploma lefel 3 mewn cymhwysedd proffesiynol TGCh.

- Mae dysgwyr gyda chyraeddiadau wedi eu hardystio y tu allan i'r FfCCh, ond y mae ganddynt eisoes y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer uned, yn gallu hawlio **eithriad** o'r uned honno mewn cymhwyster FfCCh. Golyga hyn nad oes rhaid iddynt ail-wneud eu dysgu. Gallai sefydliadau dyfarnu gynllunio eithriadau wrth lunio'r cymhwyster, neu gall y dysgwyr ofyn am eithriad.
- Mae modd asesu a dyfarnu dysgu a chyraeddiadau eraill, heb eu hardystio, trwy **gydnabod dysgu blaenorol** (rhoi cydnabyddiaeth i ddysgu blaenorol).
- Cofnodir cymwysterau o dan y FfCCh ar **gofnod dysgu personol** (CDP) electronig. Mae'r sefydliadau dyfarnu yn gyfrifol am roi gwybodaeth am gyraeddiadau ar y CDP. Mae'r dysgwr unigol yn rheoli pwy sy'n cael gweld ei CDP.

Cewch fwy o wybodaeth am Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ar y wefan, sef **www.cqfw.net**

Am yr holl ymholiadau anfonwch e-bost at **cqfwenquiries@wales.gsi.gov.uk**

CREDIT & QUALIFICATIONS FRAMEWORK FOR WALES
FFRAMWAITH CREDYDAU A CHYMWYSTERAU CYMRU